


Cynllun Cyflwyno Adolygiad  
Arfordirol  
Adroddiad Prosiect 5  
Tachwedd 2015



WLGA • CLILC

## Cynnwys

1.	Cefndir .....	2
2.	Canlyniadau .....	3
2.1	Amddiffynfeydd dros dro .....	3
2.2	Amddiffynfeydd eilaidd .....	4
3.	Casgliadau ac Argymhellion .....	5
Atodiadau.....		7
Atodiad 1:.....		7

## 1. Cefndir

Yn dilyn y llifogydd arfordirol yn niwedd Rhagfyr 2013 a dechrau Ionawr 2014, gofynnodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i adolygu'r digwyddiadau gorlifo arfordirol. Roedd yr Adolygiad hwn i'w gyflwyno mewn dwy ran ac mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau Rheoli Perygl yng Nghymru. Nododd Rhan 2 o'r Adolygiad hwn 47 o argymhellion i wella cydnerthedd Cymru i lifogydd arfordirol.

Cafodd deg ar hugain o'r Argymhellion eu pecynnu yn 10 Prosiect i adlewyrchu themâu technegol cyffredin, gyda'r ddwy ar bymtheg a oedd yn weddill i'w delio'n unigol. Rhestrir y 10 Prosiect isod:

Prosiect 1 – Rhagweld Llifogydd a Chynllunio Arfordirol

Prosiect 2 – Rhybuddio am, a Rhagweld Llifogydd

Prosiect 3 – Cydnerthedd Cymunedol

Prosiect 4 – Ymateb Gweithredol

**Prosiect 5 – Amddiffynfeydd Arfordirol**

Prosiect 6 – Set Ddata ac Archwilio Amddiffyn Arfordirol Cenedlaethol

Prosiect 7 – Archwiliad Sgiliau a Chynhwysedd a Rolau a Chyfrifoldebau

Prosiect 8 – Adolygiad o Grwpiau Arfordirol

Prosiect 9 - Addasu Arfordirol

Prosiect 10 – Cydnerthedd Isadeiledd

Mae'r adroddiad byr hwn wedi'i lunio yn dilyn cais lefel uchel am ddata yn cynnwys 11 o gwestiynau (gweler at.1) a anfonwyd at Awdurdodau Lleol arfordirol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gyflenwi anghenion Prosiect 5 sy'n cynnwys Argymhellion 25 a 26 a ddiffinnir isod:

- 
- **Argymhelliad 25:** *Dylai holl Awdurdodau Rheoli Risg (RMAs) ledled Cymru adolygu eu defnydd lleol o stylod atal, boncyffion atal, rhwystrau dros dro neu giatau symudol. Pwrpas yr adolygiad hwn ydy i RMAs fodloni eu hunain bod y trefniadau presennol yn briodol a chadarn. Dylid rhoi ystyriaeth i newid y trefniadau presennol gan osod atebion mwy parhaol neu fwy cadarn dros dro yn eu lle. Dylai'r adolygiad hwn fod wedi'i seilio ar y risgiau gan ffocysu ar y lleoliadau sydd â'r risg leol fwyaf.*
  - **Argymhelliad 26:** *Dylai holl Awdurdodau Rheoli Risg (RMAs) ledled Cymru adolygu lleoliadau lle mae systemau amddiffyn eilaidd yn bod. Pwrpas yr adolygiad hwn ydy i RMAs fodloni eu hunain y bydd y systemau eilaidd yn gweithredu fel y'i cynlluniwyd a phan bo angen. Dylai'r adolygiad hwn fod wedi'i seilio ar y risgiau gan ffocysu ar y lleoliadau sydd â'r risg leol fwyaf.*
-

## 2. Canlyniadau

Cwblhawyd y cais am ddata gan 13 o'r RMAs (12 Awdurdod Lleol arfordirol a CNC) trwy gyfrwng holiadur (gweler at.1) a chyfweliadau anffurfiol pellach. Tra bo'r rhan fwyaf o'r casgliadau yn debyg yn ôl y disgwyl, amlygodd yr arolwg rhai anghysonderau a bwch yn y wybodaeth yn ymwneud ag amddiffynfeydd eilaidd.

O'r 13 RMAs yr ymgynghorwyd â nhw, roedd 11 yn hyderus gyda lleoliad eu manau â pherygl llifogydd uchel ar yr arfordir. Mae gwybodaeth leol a chofnodion digwyddiadau hanesyddol wedi bod yn allweddol i helpu adnabod y manau hyn. Mae'r rhan fwyaf o RMAs hefyd yn defnyddio dull yn seiliedig ar risg i adnabod y manau hyn â risg uchel yn ogystal â mapio ac mae CNC hefyd yn elwa o'r Gofrestr Risgiau Cymunedol, a ddefnyddir i dargedu buddsoddiad mewn lleoliadau perygl llifogydd gyda'r angen mwyaf.

Ymatebodd 2 o'r RMAs gyda lefel isel o hyder am leoliad y manau â pherygl llifogydd uchel hyn. Roedd hyn oherwydd diffyg cofnodion ynglŷn â digwyddiadau hanesyddol am lifogydd ac asedau a llawer o fynd a dod ymysg staff oedd yn golygu na chafodd gwybodaeth bwysig mo'i throsglwyddo. Mae'r RMAs hyn bellach wedi buddsoddi mewn meddalwedd ac adnoddau newydd sydd wedi eu dwyn i mewn i adeiladu darlun o'r risg a'r prif asedau ymhob ardal unigol.

### 2.1 Amddiffynfeydd dros dro

Mae Argymhelliad 25 yn canolbwyntio ar adolygu'r defnydd lleol o stylod atal, boncyffion atal, rhwystrau dros dro neu giataiu symudol. Nododd 12 o'r ymatebwyr bod eu hasedau hwythau mewn ardaloedd o berygl llifogydd uchel wedi'u hadolygu yn dilyn stormydd gaeaf arfordirol 2013/14.

Tra bod mwyafrif yr asedau ym mherchnogaeth CNC a'r Awdurdodau Lleol yn cyflawni'u swyddogaeth, roedd stormydd y gaeaf wedi amlygu rhai gwendidau mewn manau penodol ac, fel canlyniad, mae dros 30 o'r asedau ym mherchnogaeth RMAs wedi eu hadnewyddu un ai i safon y cynllun cyn y storm(ydd) neu wedi'u huwchraddio i systemau mwy cadarn. Yn ychwanegol at hyn, darparodd CNC rwystrau Diogelu Eiddo Unigol i 230 eiddo ac roedd oddeutu 50% o'r rhain mewn ardaloedd arfordirol.

*Ffigur 1: Enghraifft o waith wedi'i uwchraddio yn Nwyrain Y Rhyf*

Cyn



Wedyn



*Ffynhonnell: Cyngor Sir Ddinbych, 2014*

Mae gwaith adolygu yn parhau mewn ardaloedd gyda risg uchel ac isel er mwyn i Awdurdodau Lleol a CNC adnabod asedau sydd bosib ag angen uwchraddio ac mae disgwyl gwaith adnewyddu pellach yn 2016 yn ogystal â gosod amddiffynfeydd dros dro newydd.

Amlygodd y canlyniadau hefyd bod gan bob RMA drefn archwilio a chynnal a chadw yn ei lle ar gyfer yr asedau hyn, sy'n aml yn ffurfio rhan o amddiffynfeydd rhag llifogydd mwy. Fan leiaf, mae archwilio rheolaidd yn digwydd unwaith y flwyddyn ac wedi stormydd. Lle bo'r risg ar ei uchaf, mae rhai RMAs yn archwilio'u hasedau 2 neu 3 gwaith y flwyddyn yn ogystal ag adegau cyn ac ar ôl stormydd.



*Ffynhonnell: Cyngor Sir Gwynedd, 2014*

Mae arolygiadau Awdurdodau Lleol yn canolbwyntio'n bennaf ar eu hasedau'u hunain oherwydd diffyg cymhwyster a'r ffaith y gallen nhw fod yn defnyddio system archwilio wahanol i sefydliadau eraill. Mae CNC, sydd â 10 arolygydd asedau achrededig, yn monitro perfformiad CNC yn ogystal ag asedau trydydd parti (mae'n bosib bod amseriad archwilio asedau'r trydydd parti hyn yn caniatáu dim mwy na chymryd golwg ar osodiadau *in situ* ac nid y rhwystrau eu hunain) ar hyd yr arfordir a Phrif Afonydd Cymru.


Mae CNC yn hysbysu perchnogion trydydd parti am asedau methodig ac fe ddefnyddir y monitro hwn hefyd i ddatblygu rhaglenni gwaith yn seiliedig ar y risgiau ar gyfer eu hasedau'u hunain.

## 2.2 Amddiffynfeydd eilaidd

Mae Argymhelliaid 26 yn canolbwyntio ar adolygu amddiffynfeydd eilaidd yn yr ardaloedd hynny sydd â'r risg fwyaf. Nododd ymatebion RMAs bod lefel isel o hyder yn y maes hwn oherwydd yr anhawster o ddiffinio ac adnabod amddiffynfeydd eilaidd. Gofynnwyd i RMAs ystyried eu hymatebion yn seiliedig ar ddiffiniad eang o amddiffyniad eilaidd:

*Unrhyw adeiladwaith artiffisial neu naturiol a all weithredu fel amddiffyniad rhag llifogydd i ddiogelu unrhyw eiddo unigol neu ardal ehangach trwy ddal dŵr sy'n gorlifo.*

*Ffigwr 2: Amddiffynfa eilaidd yng Ngwynedd*



*Ffynhonnell: Cwnaor Gwynedd 2014*

Nododd y mwyafrif o'r RMAs nad oedden nhw'n medru adnabod amddiffynfeydd eilaidd yn hyderus oni bai eu bod yn ffurfio rhan o systemau amddiffyn ehangach (fel y gwelir yn Ffigwr 3) ac wedi'u hadeiladu i'r pwrpas hwnnw.

Ni chafodd y rhan fwyaf o adeiladweithiau sy'n chwarae rôl amddiffynfeydd eilaidd eu hadeiladu i'r pwrpas yma. Gall yr adeiladweithiau hyn fod yn ffurfio rhan o briffordd neu dan berchnogaeth trydydd parti er enghraifft, a dim ond yn ystod digwyddiad o lifogydd y gellir adnabod eu pwrpas eilaidd. Ni ellir yn hyderus asesu union nifer yr amddiffynfeydd eilaidd hyn ledled Cymru.

Mae materion eraill sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth, bylchau yn y ddeddfwriaeth bresennol, prif bwrpas adeiladwaith, safon yr adeiladu ac argaeledd cyllid gwahanol yn ei gwneud hi'n anodd iawn 'marcio' neu ddynodi'r adeiladweithiau hyn (o dan Restr 1 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010) fel asedau amddiffyn rhag llifogydd a'u huwchraddio neu eu cynnal a'u cadw i'r safon angenrheidiol ar gyfer y pwrpas yma.

Fe nodwyd, fodd bynnag, yn dilyn stormydd gaeaf 2013/14, fod rhai RMAs yn ystyried dynodi nodweddion treflun a thirwedd fel amddiffynfeydd rhag llifogydd, ond y gall hyn fod yn broses hir a heriol.

### 3. Casgliadau ac Argymhellion

Gwybodaeth leol ydy un o gydrannau allweddol rheoli perygl llifogydd effeithiol. Mae ymarferwyr yn llwyddo i feithrin hyn trwy ddealltwriaeth dda o amgylchiadau lleol, cofnodion digwyddiadau hanesyddol a blynyddoedd o wasanaeth mewn rolau tebyg. Mae gwybodaeth dda o'r manau hynny sydd â risg uchel o lifogydd yn galluogi RMAs i flaenoriaethu, canolbwyntio adnoddau a thargeddu buddsoddiad lle mae'r perygl ar ei fwyaf.

Tra bo adeiladu'r wybodaeth hon a chadw cofnod wedi digwydd yn hanesyddol ar wahanol lefelau ledled RMAs, amlygodd y cais am ddata rhai anghysonderau ac fe ddatblygodd hyn yn broblematig unwaith i staff profiadol, gwybodus adael, gan adael eu holynwyr heb fawr o wybodaeth na chofnodion.

**1. Yr argymhelliad felly ydy bod holl RMAs yn datblygu'n bellach neu osod y systemau cywir yn eu lle i gasglu gwybodaeth hanfodol am amddiffynfeydd dros dro ac eilaidd, yn enwedig felly ar gyfer yr asedau a nodir o'r newydd mewn ardaloedd sydd â'r risg fwyaf. Gallai cofnod o'r fath fan leiaf gynnwys perchnogaeth yr ased, prif swyddogaeth (os yn wahanol i amddiffynfa rhag llifogydd), lleoliad a chyflwr.**

Daeth rhai canlyniadau cadarnhaol i'r golwg ynglŷn ag amddiffynfeydd dros dro, yn amlygu blaenweithgaredd RMAs a systemau cadarn sydd eisoes mewn grym ar gyfer archwilio, cynnal a chadw ac uwchraddio'r asedau hyn.

**2. Fodd bynnag, mae systemau archwilio presennol CNC a'r Awdurdodau a Lleol yn amlygu'r potensial o rywffaint o orgyffwrdd sy'n haeddu sylw er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o amser a chymhwyster gwerthfawr, gan atgyfnerthu'r angen i edrych ar drefniadau cyd-weithio a chydweithredu posib ar lefel ranbarthol.**

Canfyddodd yr ymarferiad hwn hefyd nad oes gan Awdurdodau Lleol yn aml wybodaeth am berchnogaeth na chyflwr asedau trydydd parti, tra bo CNC yn monitro asedau trydydd parti fel rhan o'u harchwiliadau ac yn hysbysu Awdurdodau Lleol pan fo achos posib o ddiffyg neu fethiant yn unig. Mae hi'n bwysig i holl RMAs ddal rhywfaint o wybodaeth am asedau trydydd parti (gan gynnwys perchnogaeth a chyflwr), er mwyn cynyddu'r hyder yn yr asedau hyn.

**3. Yr argymhelliad ydy bod trefniadau ranbarthol yn cael sefydlu i rannu cofnodion o'r fath rhwng CNC, Awdurdodau Lleol a phleidiau eraill sydd â diddordeb.**

Mae adnabod amddiffynfeydd eilaidd yn gur pen, waeth faint o brofiad ac adnoddau sydd gan ymarferwyr. Ni chafodd y rhan fwyaf o'r adeiladweithiau a ystyrir yn amddiffynfeydd eilaidd rhag llifogydd eu llunio i'r pwrpas hwnnw, gan ei gwneud hi'n anodd nodi eu lleoliad a'u swyddogaeth.

Roedd cael cytundeb ymysg ymarferwyr ar ddiffiniad syml ar gyfer amddiffynfeydd eilaidd yn ddyrys ond cytunodd pawb y dylid edrych ar amddiffynfeydd fel cyfanwydd yn hytrach na gwahaniaethu rhwng y gwahanol elfennau mewn system.

**4. Er ein bod yn awgrymu y dylid cynnal mwy o waith yn y maes hwn, efallai nad ydy gwario arian cyhoeddus gwerthfawr a phrin yn aml, i ymgymryd ag ymchwil neu fodelu pellach er mwyn adnabod amddiffynfeydd eilaidd a'u perfformiad disgwylidig yn ystod digwyddiad, yn ddefnydd gorau o arian cyhoeddus ac y dylid sianelu ymdrechion tuag at ddogfennu'r holl systemau.**

Ymhellach, mae bylchau presennol yn y ddeddfwriaeth yn ei gwneud hi'n anodd i RMAs ddynodi asedau trydydd parti fel amddiffynfeydd rhag llifogydd o dan Restr 1 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr, 2010. Tra bo'r broses dynodi yn atal perchnogion trydydd parti rhag newid, gwneud i ffwrdd â neu ddisodli adeiladwaith heb ganiatâd, dydy Rhestr 1 ddim yn rhoi'r grym i sicrhau ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw i'r safon briodol ac yn addas i'r pwrpas.

**5. Gan fod rheoli perygl o lifogydd a diogelu'r arfordir wedi'u datganoli yn Rhestr 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2010, yr argymhelliad ydy bod Llywodraeth Cymru'n diwygio Rhestr 1 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a**

**Dŵr 2010 i adlewyrchu'r pwerau a roddwyd o dan Adrannau 12 a 25 o Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949. Bydd hyn yn sicrhau mwy o rym i RMAs i reoli adeiladweithiau a ystyrir fel amddiffynfeydd eilaidd.**

**Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:**

Jean-Francois Dulong  
Swyddog Llifogydd a Dŵr  
CLILC

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Tŷ Llywodraeth Leol  
Rhodfa Drake  
Caerdydd  
CF10 4LG  
02920 468647  
Jfdulong@wlga.gov.uk

## Atodiadau

### Atodiad 1:

#### Cwestiynau ar gyfer Argymhelliad 25

Ydych chi wedi adnabod yr holl fannau risg uchel ar hyd eich arfordir?
Ydych chi wedi adolygu eich holl amddiffynfeydd dros dro mewn ardaloedd o risg uchel?
A oes unrhyw un o'r amddiffynfeydd hyn dan berchnogaeth trydydd parti? Os oes, faint ohonyn nhw?
Ydych chi'n hyderus bod eich amddiffynfeydd dros dro yn gweithio'n iawn?
Ydych chi'n hyderus bod amddiffynfeydd trydydd parti yn gweithio'n iawn?
A oes gynnwch chi unrhyw systemau cynnal a chadw ac archwilio mewn lle ar gyfer eich asedau? Os oes, pa mor aml?
A ydych chi eisoes wedi uwchraddio rhai asedau ers llifogydd Gaeaf 2013? Faint?
Ydych chi'n cynllunio unrhyw waith uwchraddio ar yr asedau hyn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol? Os ydych, faint ohonyn nhw?

#### Cwestiynau ar gyfer Argymhelliad 26

Ydych chi wedi adnabod yr holl fannau risg uchel ar hyd eich arfordir?
Ydych chi wedi adnabod yr hyn a ystyrir yn amddiffynfeydd eilaidd o fewn yr ardaloedd hyn?
Faint o amddiffynfeydd ydych chi wedi'u hadnabod o fewn yr ardaloedd hyn?
A oes unrhyw rai o'r amddiffynfeydd hyn dan berchnogaeth trydydd parti? Os oes, faint?
Ydych chi'n hyderus y gall eich systemau eilaidd weithredu yn ôl eu cynllun?
Ydych chi'n hyderus y gall systemau trydydd parti weithredu yn ôl eu cynllun?
A oes angen uwchraddio unrhyw rai o'ch systemau? Os oes, faint?
Ydych chi'n cynllunio unrhyw waith uwchraddio ar yr amddiffynfeydd hyn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol?
Ydych chi'n bwriadu unrhyw archwilio neu arolygu pellach yn ystod y flwyddyn ariannol hon?